HSCCLD324

# Hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer hybu’r defnydd o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd ar gyfer unigolion. Mae hyn yn cynnwys trefnu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd addas a chefnogi unigolion ac eraill i gyfathrebu â’i gilydd drwy ddarparu cyfieithwyr ar y pryd. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi’r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith i adolygu effeithiolrwydd y gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
3. adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
4. nodi a chael gafael ar wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
5. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi dewisiadau, anghenion a chanlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer defnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
6. gweithio ag unigolion ac eraill mewn ffyrdd sy'n hybu hawliau a dewisiadau, yn parchu profiadau, arbenigedd, galluoedd ac yn hybu cynhwysiant
7. cael gafael ar adnoddau ac amgylcheddau ar gyfer defnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion, a’u sefydlu
8. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a chyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd i sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth i gyfathrebu eu meddyliau, eu syniadau, eu barn a’u dymuniadau
9. cynorthwyo unigolion ac eraill i roi adborth p’un a lwyddwyd i gwrdd â chanlyniadau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, a nodi a mynd i’r afael â newidiadau i wella gwasanaethau
10. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. ffurfiau cyfathrebu a allai fod angen gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
2. sut mae dod o hyd i wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, a’u defnyddio
3. rolau cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd
4. sut y gellir defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gynorthwyo unigolion â chyfieithu a chyfieithu ar y pryd
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
6. dylanwad diwylliant a chefndir ar y defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
8. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
9. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
10. sut mae cwblhau’r asesiadau risg, y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
11. sut mae adolygu adborth ar ganlyniadau y cytunwyd arnynt a mynd i'r afael â newidiadau i wella gwasanaethau i unigolion
12. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi pan fydd unigolion yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
13. theorïau sy’n berthnasol i hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
14. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion
15. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
16. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
17. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio

wrth hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion

18. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu’r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD324

Hybu'r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD324 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfieithu, Cyfieithu ar y pryd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |